**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**
3 Hydref 2023

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Ruth Studley, Cyfarwyddwr
Jen Woolford, Cyfarwyddwr
Swyddfa Ystadegau Gwladol

Drwy e-bost

**Sesiwn friffio'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ddyfodol ystadegau ar y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Iau, 21 Medi 2023 i'n briffio ynghylch dyfodol ystadegau ar y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr. Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gynnig adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda'r wybodaeth ganlynol ar ôl mynd i Fforwm Rhyngwladol ar Gyfrifiadau ym mis Hydref 2023:

- Gwybodaeth am sut mae gwledydd eraill yn casglu data ar ieithoedd mewn gwledydd dwyieithog, megis sut mae data ar yr iaith Ffrangeg yn cael eu casglu yng Nghanada;
- Unrhyw wybodaeth arall o'r Fforwm a all ddod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor.

Byddai'n dda gan y Pwyllgor hefyd wybod mwy am gynllun cydweithio'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu data dibynadwy ar y Gymraeg. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut y gallai data cadarn am y Gymraeg gael eu casglu yn y dyfodol drwy samplu data gweinyddol yn hytrach nag arolygon ar raddfa fawr.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb maes o law, a byddwn yn falch o gael unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol y byddwch efallai am ei rhannu â ni.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.